

CYNGOR CYMUNED LLANWINIO  
LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

CYNLLUN IAITH

26/02/2002

A. DATGANIAD

Mae Cyngor Cymuned Llanwinio wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar sail cyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith dewisol, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw defnyddio'r hiaith dewisol ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio'r iaith hon eu gosod mewn sefyllfa anfanteisiol. Cynigia'r Cyngor felly yr hawl i'r cyhoedd gael dewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- gallugoi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth, neu yn trafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- annog mudiadau cyhoeddus eraill sydd yn ymwneud â'r Cyngor i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- cefnogi ac annog defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a busnesau sydd yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd o fewn ardal a wasanaethir gan y Cyngor.

B.CYFLWYNIAD I GYNGOR CYMUNED LLANWINIO

Yn ôl cyfrifiad 1991 mae 65% o drigolion y gymuned yn siarad Cymraeg.

Plwyf gwledig yn Sir Gaerfyrddin yw Llanwinio, wedi ei leoli tua 7 milltir i'r gogledd o San Clêr a thua 8 milltir i'r gogledd ddwyrain o Hendygywyn ar Dâf. Caerfyrddin yw frif dref y sir, tua 13 milltir i ffwrdd,

Mae'r plwyf yn cynnwys pentrefi Cwmfelin Mynach, Blaenwaun, Cwmbach ynghyd â Llanwinio o rhan o Gelliwen.

Ar hyn o bryd mae 378 o drigolion ar y Rhester o Etholwyr. Mae'r ysgol gynradd yng Nghwmbach, ac addysgir plant oed 4 i 11 yno. Ysgol Categori "A" ydyw a Chymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu.

O fewn y gymuned, mae cangen o Ferched y Wawr sy'n cynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae 4 capel Cymraeg ac Eglwys y Plwyf yn Llanwinio lle cynhelir gwasanaethau dwyieithog.

Y Cyngor Cymuned yw'r man cyswllt cyntaf rhwng y gymuned leol a'r Awdurdod Unedol, sef. yn yr achos hwn, Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae gan y Cyngor hefyd gysylltiadau â Heddlu Dyfed Powys a sefydliadau eraill.

Mae gan y Cyngor fewnbwn i benderfyniadau cynllunio lleol, goleuo mannau, cyhoeddus, seddau ger y ffordd, cysgodfannau bws a.y.b.

Saith aelod sydd ar y Cyngor gan gynnwys y Cadeirydd.

## C. Y CYNLLUN IAITH

### 1. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

#### **1.1 Polisiau a Mentrau Newydd**

Wrth ddyfeisio polisiau a mentrau newydd, fe fydd y Cyngor yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith.
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl a symud yn nes at wehtiredu'r egwyddor o gydraddoldeb llawn gyda pob cyfle a ddaw.
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y cynllun. Ni newidir y cynllun heb gytundeb y Bwrdd
- sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- sicrhau y bydd mesurau yn y cynllun yn cael eu gweithredu wrth weithredu polisiau a mentrau newydd.

#### **1.2 Cyflwyno Gwasanaethau**

Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod pob agwedd o'i wasanaeth i'r cyhoedd yn y gymuned ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg trwy'r dulliau canlynol:

- mabwysiadu dulliau gweithredu fydd yn darparu gwasanaeth yn yr iaith a ddewisir gan y sawl sydd yn derbyn y gwasanaeth.
- sicrhau darpariaeth gwasanaeth cyfieithu neu chyflogi cyfieithwr yn ôl y galw.

Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'r cyhoedd.

#### **1.3 Safonau Ansawdd**

- i. Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg neu yn y Gymraeg yn gyfartal o ran

safon uchel.

- ii. Bydd ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y ddwy iaith yn cael ei datgan mewn dogfennau allweddol.
- iii. Fe fydd gweithredu'r polisi yn cael ei fonitro.

## 2. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

### 2.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

- i. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg
- ii. Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.
- iii. Os derbynnir yn y Gymraeg fe atebir yn y Gymraeg.
- iv. Bydd pob gohebiaeth yn dilyn sgwrs yn y Gymraeg, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, yn y Gymraeg, os nad yw'r aelod o'r cyhoedd yn dynodi fel arall.
- v. Bydd gohebiaeth yn dilyn cyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw iaith ddewisol yr unigolyn, er ei bod yn bosibl mai nad y Gymraeg oedd iaith y cyfarfod.
- vi. Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei iaith/hiaith ddewisol lle bo hynny'n hysbys. Os nad yw'n hysbys, bydd gohebiaeth gwreiddiol y Cyngor yn ddwyieithog.
- vii Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- viii Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am drefnu cyfieithu gohebiaeth.

### 2.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

Bydd y Cyngor yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Swydd rhan amser yw Swydd Clerc y Cyngor, ac mae'r gwaith yn cael ei weinyddu o gartref y Clerc.

### 2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- i. Croeshewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu hysbysebu'r cyfarfod.
- ii. Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.
- iii. Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg ymhob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor.
- iv. Bydd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig sy'n cael ei ddefnyddio mewn cyfarfod, megis taflenni neu dryloywon yn ddwyieithog.

## **2.4 Cyfarfodydd eraill gyda'r Cyhoedd**

Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny, i drafod materion yn y Gymraeg.

### **Cyfarfodydd y Cyngor**

- ⇒ Cynhelir y cyfarfod yn ddwyieithog
- ⇒ Bydd hysbysiad / agenda o bod cyfarfod yn ddwyieithog.
- ⇒ Cedwir y cofnodion yn ddwyieithog.
- ⇒ Os bydd y Cyngor yn derbyn cais gan y cyhoedd i ddarparu gwybodaeth yn deillio o'r cofnod, bydd y Cyngor yn gwneud hynny yn iaith y cais gwreiddiol.

## **2.5 Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r Cyhoedd**

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn cysylltu â'r cyhoedd gan ddefnyddio cyfrifaduron, ond pe bai hynny yn digwydd yn y dyfodol, cydymffurfir â'r mesurau a osodwyd o dan Gohebiaeth Ysgrifenedig.

## **3. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR**

### **3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol.**

- i. Enw'r Cyngor yw Cyngor Cymuned Llanwinio / Llanwinio Community Council.
- ii. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog.
- iii. Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor Cymuned yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd, papur ffacs a slipiau cyfarch.

### **3.2 Arwyddion**

- i. Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar

eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr a'r fersiwn Cymraeg ar y chwith. Lle bo hyn yn anymarferol bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

- ii. Pan yr ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn âg arwyddion priffordd a gwybodaeth gyhoeddus bydd y Cyngor yn cefnogi'r egwyddor y dylent fod yn gwbl ddwyieithog.
- iii. Pan yr ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau ar gyfer datblygiadau newydd, bydd yn cefnogi'r egwyddor y mabwysiedir enwau Cymraeg.

### **3.3 Cyhoeddu ac Argraffu Deunydd**

- i. Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru, megis dogfennau, deunydd esboniadol neu ffurflenni arall yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen. Argraffir y ddwy fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio.
- ii. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.
- iii. Cymraeg yn bennaf yw iaith y cyfarfodydd (ar hyn o bryd). Bydd pob Agenda. a Chofnodion cyfarfodydd o'r Cyngor yn cael eu paratoi'n ddwyieithog.
- iv. Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog ac yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- v. Bydd hysbysebion ac hysbysiadau yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall yn ddwyieithog.
- vi. Gweithredir hysbysebu a chyhoeddu'rwydd yn ddwyieithog mewn modd sydd yn trin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb.

## **4. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

### **4.1 Staffio**

Ystyrir gwybodaeth rugl o'r Gymraeg yn hanfodol i swydd Clerc y Cyngor, eithr onid ymgeisia unrhyw siaradwr Cymraeg sydd â chymwysterau digonol am y swydd, caiff y swydd ei hail-hysbysebu gan gynnwys datganiad y bydd yn ofynnol i unrhyw un a benodir ddysgu'r Gymraeg i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod penodedig gan y Cyngor.

#### **4.2 Trefniadau Gweinyddol**

- i. Mae gan y cynllun hwn gefnogaeth llawn Cyngor Cymunedol Llanwino,
- ii. Gan Glerc y Cyngor bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun o fewn y Cyngor, a bydd yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r cynllun.
- iii. Os neu pryd bydd y Cyngor yn prynu meddalwedd cyfrifiadurol newydd, bydd yn sicrhau fod y meddalwedd yn ei alluogi i gydymffurfio â'r ymrwymadau yn y Cynllun hwn.

#### **4.3 Swyddogaeth**

- i. Pan fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau ar gyfer cyfraniadau ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd yn gwahodd ymgeiswyr i ddisgrifio sut maent yn bwriadu adlewyrchu natur dwyieithog y gymuned yn eu gweithgareddau.
- ii. Rhennir grantiau yn unol â hynny, ac adolygir cydymffurfiad â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor trwy ofyn am adroddiad cydymffurfio.

#### **4.4 Monitro**

- i. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro'r cynllun.
- ii. Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad byr ar weithrediad y cynllun, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn y papur bro misol. Bydd yr adroddiad yn gwahodd trigolion cymuned Llanwinio i gynnig eu barn ar y gwasanaeth a sut ellir ei wella.
- iii. Fe fydd y broses o fonitro yn cynnwys y canlynol :-

⇒ Ymdrin â'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg.

- amser i ymateb i ohebiaeth Cymraeg
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn
- y defnydd a wneir o gyfieithu

⇒ Delwedd cyhoeddus y Cyngor

- arwyddion, ffurflenni, hysbysiadau a chyhoeddiadau dwyieithog

- delwedd gorfforaethol y Cyngor.

⇒ Cynllunio i'r dyfodol

- sicrhau bod polisiau newydd neu gyhoeddiadau yn cydfynd â chyflenwi gwasanaethau dwyieithog ar sail cydraddoldeb.

⇒ Cwynion

- nifer a natur y cwynion a dderbynir mewn perthynas â gwasanaeth y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg ac awgrymiadau ar gyfer ei wella.

Trefnu a chyflwyno gwasanaethau

Staffio

Asiantau a Chontractwyr.

Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau ar sut i wella unrhyw agwedd o'r cynllun.

#### **4.5 Cyhoeddusrwydd**

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gweithrediad y cynllun yn y wasg leol ac ar ei fyrddau hysbysebu.

#### **4.6 Amserlen**

Bydd y Cyngor yn dechrau gweithredu'r cynllun o ddyddiad a gymeradwyir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r bwriad y bydd yn gweithredu i raddau helaeth o fewn deuddeg mis wedi hynny.

#### **4.7 Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan bartion eraill**

Os yw neu fydd y Cyngor yn darparu elfen o'i wasanaethau i'r cyhoedd trwy gytundeb / trefniant neu contract â thrydydd parti a fyddai'n gweithredu ar ei ran, yna bydd angen iddynt gydymffurfio gydag agweddau perthansol o'r cynllun hwn.

#### **4.8 Cysylltiad o fewn y Cyngor.**

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau gysylltiedig â'r cynllun at :

Mrs Evans  
Clerc Cyngor Cymunedol Llanwinio  
Fronfelin  
Cwmbach  
Hendygywn  
Sir Gaerfryddin  
SA34 0DR.